

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA651 - Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) 2016

Cefndir a Phwrpas

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau diogelwch y cyhoedd rhag digwyddiadau o ryddhau dŵr heb reolaeth o gronfeydd dŵr.

Gwneir y Rheoliadau hyn dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, ac maent yn darparu ar gyfer:

- sut i gyfrifo capasiti cronfa ddŵr fawr;
- cofrestru gwybodaeth am gronfeydd dŵr mawr;
- adroddiadau CANC ynghylch cronfeydd dŵr mawr;
- adroddiadau mae'n rhaid i ymgymerywyr cronfa ddŵr perygl uchel eu cadw;
- ffurf tystysgrifau, adroddiadau a chyfarwyddiadau peirianwyr;
- yr wybodaeth mae'n rhaid i ymgymerywyr ei darparu pan yn bwriadu adeiladu, neu ail-ddechrau defnyddio, cyforgronfa ddŵr fawr;
- adroddiadau mae'n rhaid i ymgymerywyr eu cadw, a'u hanfon at CANC, ynghylch digwyddiadau o ryddhau dŵr heb reolaeth o gyforgronfa ddŵr fawr pan fo mesurau brys yn cael eu cymryd.

Mae'r rheoliadau presennol ynghylch cofrestru, adrodd a chofnodi'n cael eu dirymu.

Gweithdrefn

Negyddol

Craffu Technegol

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno dan Reol Sefydlog 21.2(vii) mewn perthynas â'r offeryn hwn, gan ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Mae Atodlen 5 yn rhagodi ffurf adroddiad ar gyfer arolygiad cyfnodol o gyforgronfa ddŵr fawr.

Mae'n ofynnol, dan y testun Saesneg, i gynnwys (ymhlith pethau eraill), unrhyw argymhellion y gwêl y peiriannydd yn addas i'w gwneud ynghylch yr arolygiad nesaf. Nid yw'r testun Cymraeg yn cynnwys y gofyniad hwn.

Golyga hyn nad oes rhaid i adroddiad yn y Gymraeg gynnwys cymaint o wybodaeth ag adroddiad yn y Saesneg.



Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

01 Chwefror 2016



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales